# Polisi Gwirfoddoli




2022 - 2025

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| Perchennog y polisi ar gyfer adolygu | Ymgynghorydd Polisi Adnoddau Dynol a Gwobrwyo |
| Dyddiad cymeradwyo'r polisi gan y Tîm Rheoli Corfforaethol | Tachwedd 2022 |
| Dyddiad y diwygiad diwethaf | |
| Dyddiad y diwygiad diwethaf | |
| Dyddiad gweithredu | Tachwedd 2025 |

# Cynnwys

Cynnwys ........ 3
Cyflwyniad ........ 4
Nod ........ 4
Beth yw Gwirfoddoli ........ 4
Datganiad Gwerthoedd ac Egwyddorion ........ 5
Recriwtio a Dethol Gwirfoddolwyr ........ 5
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) ........ 6
Ymsefydlu a Hyfforddiant ........ 6
Iechyd a Diogelwch ........ 6
Cyfrinachedd a Diogelu Data ........ 7
Diogelu ........ 7
Cefnogaeth barhaus ........ 7
Treuliau ........ 7
Gwirfoddolwyr sy’n Derbyn Budd-daliadau ........ 8
Yswiriant ........ 8
Cwynion ........ 8
Symud Ymlaen ........ 9

## Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer gwaith gwirfoddol yng Nghyngor Sir y Fflint. Mae pobl yn gwirfoddoli am nifer o resymau, er enghraifft:

- I gymdeithasu
- I roi rhywbeth yn ôl i'r gymdeithas
- I adennill neu ddysgu sgiliau cyflogaeth newydd
- I lenwi eu hamser

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu mewn sawl ffordd a bod eu cyfraniad yn unigryw, ac y gall gwirfoddoli fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau, staff, cymunedau lleol ac i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gwerthfawrogi cyfraniad gwirfoddolwyr ac mae wedi ymrwymo i gynnwys gwirfoddolwyr mewn safleoedd sy'n briodol ac mewn ffyrdd sy'n annog, yn cefnogi ac yn datblygu gwirfoddoli.

## Nod

Nodau cyffredinol y polisi gwirfoddoli yw datblygu a hyrwyddo arfer gorau i gynnwys a chefnogi gwirfoddolwyr yng ngwaith Cyngor Sir y Fflint. Mae'r polisi hwn yn anelu i:

- Annog datblygiad gwirfoddoli ym mhob rhan o'r Cyngor.
- Cydnabod a hyrwyddo pwysigrwydd gwirfoddoli i waith y Cyngor.
- Sicrhau cefnogaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth ar gyfer gwirfoddolwyr y Cyngor.
- Nodi'r safonau y disgwylir i weithwyr a gwirfoddolwyr Cyngor gadw atynt.
- Darparu arweiniad ac arfer gorau i staff y Cyngor i weithio gyda gwirfoddolwyr a sicrhau y gweithredir Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor ar gyfer gwirfoddoli.
- Sicrhau bod gwirfoddoli gyda'r Cyngor yn brofiad pleserus a gwerth chweil.

Nod y Cyngor yw gweithio gyda chymunedau a phartneriaid lleol i ddatblygu ystod eang o weithgareddau gwirfoddoli addas sy'n berthnasol i bobl Sir y Fflint.

## Beth yw Gwirfoddoli

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ystyried gwirfoddoli fel gweithgaredd di-dâl lle mae rhywun yn rhoi o'u hamser i helpu sefydliad neu unigolyn nad ydynt yn perthyn iddynt. Mewn geiriau eraill, nid yw gwirfoddolwyr yn staff sy'n cael eu talu ac nid oes ganddynt berthynas gytundebol rhwym mewn cyfraith gyda'r Cyngor.

## Datganiad Gwerthoedd ac Egwyddorion

Mae gwirfoddoli yn weithgaredd dilys a hanfodol sy'n cael ei gefnogi a'i annog gan Gyngor Sir y Fflint ac ni fwriedir iddo gymryd lle gwaith cyflogedig. Mae rôl gwirfoddolwyr yn ategu ond nid yw'n cymryd lle rôl staff cyflogedig.

Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod staff cyflogedig yn glir ynghylch rôl gwirfoddolwyr, ac i feithrin perthynas waith dda rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr.

Mae rôl y gwirfoddolwr yn berthynas rodd, yn rhwymedig mewn anrhydedd, ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth. Ni ellir gosod unrhyw rwymedigaeth gorfodadwy, cytundebol neu fel arall ar wirfoddolwyr i fynychu, roi neu osod isafswm amser i gynnal y tasgau dan sylw yn eu gweithgarwch gwirfoddol. Yn yr un modd ni ellir gorfodi Cyngor Sir y Fflint i ddarparu naill ai tasgau rheolaidd, tâl neu fudd arall am unrhyw weithgaredd a wna'r gwirfoddolwr.

## Recriwtio a Dethol Gwirfoddolwyr

Bydd disgrifiadau rôl, ffurflenni cais, polisïau a dogfennau eraill gwirfoddolwyr ar gael ar wefan y Cyngor, neu drwy sefydliadau partner gwirfoddol megis Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac mae'n credu y dylai gwirfoddoli fod yn agored i bawb. Mae gwirfoddolwr yn cael ei dderbyn i rôl benodol ar sail teilyngdod, a'r unig faen prawf dethol yw addasrwydd yr unigolyn i gyflawni'r tasgau y cytunwyd arnynt. Mae’n rhaid i unrhyw berson fod yn 16 oed neu drosodd i wirfoddoli gyda'r Cyngor.

Bydd gwirfoddolwyr a ystyrir yn anaddas ar gyfer tasg benodol un ai'n cael cynnig cyfle arall i wirfoddoli o fewn y Cyngor neu eu cyfeirio at Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC), sy'n cydlynu cyfleoedd gwirfoddoli ar draws Sir y Fflint.

Gofynnir i bob gwirfoddolwr ddarparu dau eirda a byddant yn cael eu gwahodd i fynychu cyfweliad anffurfiol. Os bydd y gwirfoddolwr yn ymgymryd â gweithgareddau gyda grwpiau sy'n agored i niwed (plant a/neu oedolion), efallai y bydd gweithdrefnau recriwtio mwy diogel eraill yn cael eu cynnal, gan gynnwys cwblhau gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae recriwtio gwirfoddolwyr o fewn Gofal Cymdeithasol yn cael ei lywodraethu gan reoliadau a nodwyd gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC) yw'r sefydliad ymbarél a chefnogi ar gyfer 1000 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn y Sir. Maent yn darparu cymorth gyda sefydlu a rhedeg grwpiau gwirfoddol, yn denu cyllid, yn rhoi cyngor ar lywodraethu, a recriwtio gwirfoddolwyr yn ogystal â darparu cymorth ymarferol ar nifer o faterion.

Mae'r Ganolfan Gwirfoddoli yn rhan allweddol o FLVC ac yn cysylltu pobl sydd eisiau gwirfoddoli gyda grwpiau a sefydliadau sydd angen help i redeg eu gweithgareddau.

Swyddfa Gofrestredig: CORLAN, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1XP.

Ffôn: 01352 744000

E-bost: info@flvc.org.uk

Gwefan: www.flvc.org.uk facebook.com/flvcpage

## Ymsefydlu a Hyfforddiant

Bydd y Cyngor yn rhoi cyflwyniad i'r sefydliad i'r holl wirfoddolwyr yn ogystal â sesiwn ymsefydlu a hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer y cyfle i wirfoddoli.

## Iechyd a Diogelwch

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i osgoi peryglu ein gwirfoddolwyr i risgiau iechyd a diogelwch. Bydd pob gwirfoddolwr yn cael gwybod am Bolisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y Cyngor ac unrhyw bryderon diogelwch ymarferol fel rhan o'r broses ymsefydlu. Disgwylir i wirfoddolwyr gydymffurfio â Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Bydd holl rolau gwirfoddolwyr yn mynd trwy broses asesu risg, sy'n cwmpasu tasgau dan sylw a'r amgylchedd lle byddant yn cael eu cynnal. Yn ogystal, lle bydd gwirfoddolwr yn ein gwneud yn

ymwybodol o gyflwr meddygol sydd eisoes yn bodoli neu anabledd, efallai y bydd asesiad risg unigol yn angenrheidiol hefyd.

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

Rhaid i'r holl oruchwylwyr sicrhau yn ystod sesiwn ymsefydlu bod gwirfoddolwyr yn ymwybodol o Bolisïau cyfrinachedd a Diogelu Data'r Cyngor. Os yw eu rôl yn gofyn am hynny, mae'n rhaid i wirfoddolwyr gael hyfforddiant priodol.

## Diogelu

Mae'n rhaid i bob goruchwyliwr sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ymwybodol o, ac wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ar Bolisi Diogelu Plant ac Oedolion y Cyngor. Gall Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint gynnig hyfforddiant diogelu sylfaenol a gall Goruchwylwyr Gwirfoddoli gysylltu â nhw am gyngor a chymorth pellach os oes angen (gweler yr adran ar Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint am fanylion cyswllt).

Mae Cyngor Sir y Fflint yn dilyn y gweithdrefnau a amlinellir gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd i sicrhau diogelwch plant ac oedolion diamddiffyn. Ni all gwirfoddolwr sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n cael ei amlinellu yn y Meini Prawf GDG gymryd rhan nes bod y Cyngor wedi derbyn GDG wedi'i glirio.

## Cefnogaeth barhaus

Bydd pob gwirfoddolwr yn derbyn cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol yn eu gweithgaredd. Bydd lefel yr oruchwyliaeth yn cyd-fynd â natur y rôl a phrofiad y gwirfoddolwr. Bydd gan bob gwirfoddolwr oruchwyliwr gwirfoddolwyr enwebedig, rhywun y gallant gael mynediad rheolaidd iddynt os bydd problemau'n codi neu pan fydd angen help neu gefnogaeth.

## Treuliau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu treuliau 'allan o boced' i sicrhau nad yw darpar wirfoddolwyr yn cael eu heithrio o ganlyniad i resymau ariannol. Fodd bynnag, mae angen cytuno ar hyn gyda'r rheolwr perthnasol ***cyn*** i'r gwirfoddolwr ddechrau eu gweithgaredd. Lle na chytunir ar dreuliau, mae'n rhaid i wirfoddolwyr fod yn ymwybodol o hyn ar eu cyfle cyntaf yn y broses recriwtio. Gellir hawlio treuliau gan ddefnyddio "Ffurflen Hawlio nad yw'n cynnwys Staff Sir y Fflint", sy'n cael eu cyhoeddi gan yr Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid. Bydd unrhyw

filltiroedd a hawlir yn cael eu talu ar y gyfradd HMRC yn unig. Rhaid darparu pob derbynneb gyda'r ffurflen hawlio treuliau.

## Gwirfoddolwyr sy'n Derbyn Budd-daliadau

Cyfrifoldeb y gwirfoddolwr yw sefydlu a yw gwirfoddoli yn mynd i effeithio ar eu hawl i unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol. Dylid derbyn cyngor pellach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Canolfan Byd Gwaith, neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

## Yswiriant

Mae polisïau yswiriant atebolrwydd Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys gweithgareddau gwirfoddolwyr ac atebolrwydd tuag atynt.

Nid yw'r Cyngor yn yswirio eiddo personol y gwirfoddolwr rhag colled neu ddifrod.

Lle mae gwirfoddolwyr yn gyrru fel rhan o'u gweithgareddau gwirfoddol, ac yn defnyddio eu cerbyd eu hunain, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn meddu ar y dosbarth perthnasol o yswiriant. Dylid gofyn am arweiniad pellach gan gwmni yswiriant y gwirfoddolwr ei hun. Rhaid i oruchwylwyr wirio a chofnodi'r dogfennau hyn os oes angen.

## Cwynion

Gan nad yw gwirfoddolwyr yn cael eu cyflogi, nid ydynt yn gallu defnyddio Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Cyngor. Fodd bynnag, mae ganddynt yr hawl i ddefnyddio gweithdrefn Cwynion y Cyngor.

Dylai cwynion gan wirfoddolwyr gael eu codi yn y lle cyntaf gyda'u Goruchwyliwr Gwirfoddolwyr, a'u trin yn anffurfiol lle y bo'n bosibl. Lle bo'n briodol, bydd y gwyn yn cael ei hymchwilio'n llawn gan y Goruchwyliwr, neu os yw'r gwyn yn erbyn eu Goruchwyliwr eu hunain, gan y Goruchwyliwr Gwirfoddolwyr arall neu reolwr llinell.

Os gwneir cwyn yn erbyn gwirfoddolwr, bydd hyn yn cael ei ymchwilio gan y goruchwyliwr perthnasol. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater mor gyflym ac anffurfiol ag y bo modd. Os na all y mater gael ei ddatrys yn foddhaol, yna efallai y bydd y gwirfoddolwr yn cael gwybod nad oes angen eu gwasanaethau mwyach.

# Symud Ymlaen

Mae Cyngor Sir y Fflint yn croesawu adborth ac yn annog gwirfoddolwyr i gynnig syniadau ar gyfer gwelliannau. Bydd gwirfoddolwyr sy'n dewis rhoi'r gorau i wirfoddoli ar unrhyw adeg yn cael eu gwahodd i roi adborth cyn iddynt symud ymlaen.

Dylai gwirfoddolwyr sy'n gadael y Cyngor ac sydd wedi gwneud ymrwymiad rheolaidd, hefyd gael cynnig cyfweliad gadael, geirda ac/neu ddatganiad o'u cyflawniadau er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu gwerthfawrogi’n briodol ac yn ffurfiol.